Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/GH

28 Medi 2017

Annwyl Gadeirydd

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi mynd â gwaith y Cynulliad i bobl Cymru drwy fenter Senedd@. Hyd yn hyn, rydym wedi mynd â'r fenter ar daith i Wrecsam, Abertawe a Chasnewydd. Gwnaethom ddewis y lleoliadau hyn am fod nifer y rhai a bleidleisiodd yno yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 a 2016 yn arbennig o isel.

Cyflwynwyd rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai fel rhan o Senedd@Wrecsam, Senedd @Abertawe a Senedd@Casnewydd, a gwnaethom gynnwys miloedd o bobl yn uniongyrchol yng ngwaith y Cynulliad. Gwnaethom hefyd feithrin perthnasau gwaith â sefydliadau lleol pwysig a'r cyfryngau lleol. Er mwyn cynnal y momentwm a grëwyd drwy ein hymweliadau â'r trefi hyn, a chan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i gynnal digwyddiad arall fel rhan o fenter Senedd@ yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 13 Tachwedd 2017. Etholaeth Delyn yw'r lleoliad a ddewiswyd ar gyfer menter nesaf Senedd@.

Un o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad o fentrau blaenorol Senedd@ oedd bod angen galluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfranogiad posibl yn llawer cynharach yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd unrhyw awgrymiadau sydd gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallai gymryd rhan yn Senedd@Delyn.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Yn y gorffennol, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol mewn lleoliadau cymunedol fel rhan o fentrau Senedd@, gan achub ar y cyfle i annog pobl i gymryd rhan yn eu gwaith. Bydd Senedd@Delyn yn gyfle gwych i'ch pwyllgor godi ei broffil ac ymgysylltu â'r cyfryngau a llawer o sefydliadau lleol.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Geraint Huxtable drwy ffonio 0300 200 6277 neu drwy anfon neges e-bost: Geraint.Huxtable@Cynulliad.Cymru

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd